# Strategaeth Hybu'r Gymraeg

# Adroddiad Ymgynghori

## 1. Cyflwyniad

Datblygwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Safon 145.

Mae'r Safon yn rhoi dyletswydd ar y cyngor i lunio, a chyhoeddi ar ei wefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut rydych chi'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni yn eich ardal ynghyd â tharged ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg ddrafft y cyngor ynghyd â'r cynllun gweithredu cysylltiedig am gyfnod o 4 wythnos rhwng 25 Mai a 22 Mehefin 2018.

Diben yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i amrywiaeth eang o gyrff â diddordeb a'r cyhoedd fynegi barn am y fersiynau drafft a chyflwyno sylwadau arnynt cyn i Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu gael eu cwblhau a'u mabwysiadu gan y cyngor.

Derbyniwyd cyfanswm o 45 o ymatebion drwy'r arolwg ar-lein a'r blychau arolwg gyda 79 o unigolion yn mynegi eu barn am nodau'r strategaeth yn ystod digwyddiadau ymgynghori 'anffurfiol' ym Mhort Talbot, Castell-nedd a Phontardawe. Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau ar e-bost gan Gyngor Cymuned Cilybebyll.

Sylwer, lle defnyddir dyfyniadau gan ymatebwyr yna mae'r rhain yn ddyfyniadau uniongyrchol o ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 2. Yr hyn a wnaethon ni

### Ymgynghoriad a Chynllun Cynnwys

Er mwyn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosib, cafwyd sawl ffordd o gyflwyno barn.  Roedd y rhain yn cynnwys:

- Holiadur i'w gwblhau a gyhoeddwyd ar wefan y cyngor
- Pecynnau ymgynghori mewn 20 llyfrgell a chanolfan ddinesig
- Hyrwyddo'r ymgynghoriad i amrywiaeth o randdeiliaid drwy e-byst
- Hyrwyddo drwy negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol corfforaethol y cyngor
- Digwyddiadau ymwybyddiaeth/ymgynghori ym Mhort Talbot, Castell-nedd a Phontardawe

Gellir cael mwy o wybodaeth yn Atodiad 1

## 3. Ymgynghori mewn digwyddiadau ymwybyddiaeth/ymgynghori

Roedd yr holiadur manwl yn rhy hir i'w gwblhau yn y fan a'r lle o ystyried yr amser a oedd ar gael a lleoliad y digwyddiadau ymwybyddiaeth/ymgynghori a gynhaliwyd ym Mhort Talbot, Castell-nedd a Phontardawe felly ystyriwyd y byddai'n fwy priodol cynnal ymgynghoriad 'anffurfiol' yn y digwyddiadau hyn. Llwyddodd y digwyddiadau hyn i nodi ymatebion cychwynnol pobl i nodau'r strategaeth ynghyd â rhoi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau.

## 4. Crynodeb o ddadansoddiad yr ymgynghoriad

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau hyrwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth o’r ymgynghoriad ac annog aelodau o’r cyhoedd i ymgysylltu â’r cyngor o drawstoriad eang o’r fwrdeistref sirol, fel a fanylwyd yn y Cynllun Ymgynghori a Chynnwys (Atodiad 1).

Gweler isod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i’r ymgynghoriad drwy’r gweithgareddau ymgynghori amrywiol:

- Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion i ddwy fersiwn yr holiadur (42 yn Saesneg; 3 yn Gymraeg)
- Cafwyd 81 o ymatebion yn y digwyddiadau ymgynghori 'anffurfiol' (21 ym Mhort Talbot, 34 yng Nghastell-nedd a 26 ym Mhontardawe)
- Derbyniwyd 13 holiadur wedi’u cwblhau drwy’r blychau post a leolwyd yn yr 20 o lyfrgelloedd/adeiladau cyhoeddus
- Daeth y mwyafrif o'r ymatebion i'r holiadur llawn (lle nodwyd) o Gastell-nedd a'r cyffiniau
- Derbyniwyd 3 ymateb gan sefydliadau, gan gynnwys y Cyngor Pobl Hŷn
- Derbyniwyd sylwadau drwy e-bost gan Gyngor Cymuned Cilybebyll

Ystyriwyd pob barn a sylw a fynegwyd drwy’r broses ymgynghori cyn cwblhau'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

Ymdriniwyd â sylwadau penodol ynghylch Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sy'n nodi y

bydd y prosiect arfaethedig ym Mhontardawe yn destun amrywiaeth o asesiadau effaith, gan gynnwys asesiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a'r gymuned, i helpu i asesu unrhyw 'effaith andwyol bosib ar addysg Gymraeg' yn yr ardal.

Ystyriwyd bod y derminoleg a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn 'pa effaith ydych chi'n ei feddwl bydd y strategaeth yn ei chael ar: beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn 'bychanu'r Gymraeg'. Fodd bynnag, cymerwyd y geiriau hyn yn uniongyrchol o Safonau'r Gymraeg - Safonau 88-97 ynghylch Llunio Polisi:

....mae'n rhaid ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a pha un a yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Derbyniwyd un sylw ynghylch y categorïau ethnigrwydd a ddefnyddir yn y cwestiynau monitro cydraddoldeb: 'Nid oedd Gwyn Cymreig/Gwyn Ewropeaidd yn opsiwn'. Dylid nodi y defnyddir categorïau ethnigrwydd safonol er mwyn hwyluso ymarferion cymharu ar draws gwasanaethau/sefydliadau. Dylid nodi hefyd bod opsiwn 'Grŵp ethnig arall' gyda chyfle i ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

## 5. Ymatebion i'r holiadur

Cafwyd cyfanswm o 45 o ymatebion.

### 5.1 Sylwadau ar nodau'r strategaeth:

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr (24, 53.3%) gyda phum nod y strategaeth ddrafft gyda 6 (13.3%) yn cytuno â rhai ohonynt. Anghytunodd 11 â phob un o'r nodau, neu rai ohonynt.

### Prif resymau a roddwyd dros gytuno â'r nodau:

- Mynegodd nifer o ymatebwyr ymdeimlad cryf o falchder yn yr iaith a'i goroesiad gyda'i hyrwyddo ym mhob ffordd yn allweddol i hyn;
- Ystyriwyd bod iaith yn rhan bwysig o'n diwylliant a'n hunaniaeth, yn genedlaethol ac yn lleol;
- Mynegwyd cefnogaeth i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a'r galw mawr am addysg Gymraeg i gefnogi hyn.

**Prif resymau a roddwyd dros anghytuno â'r nodau:**

- Saesneg yw iaith busnes a bywyd pob dydd a dylid derbyn dewis o'r fath;
- Dylai ariannu gwasanaethau hanfodol fod yn flaenoriaeth;
- Perygl dieithrio pobl drwy hyrwyddo'r iaith.

**Nodau penodol y cytunwyd â hwy a sylwadau cysylltiedig:**

- Roedd pob ymatebwr (4) i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'n benodol y nod i 'yrru a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a chreu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd'. Amlygodd sylwadau'r ffaith bod plant yn well am amsugno'r iaith ac felly bydd yn sicrhau twf a hyrwyddiad yr iaith gan ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Yn ogystal, cefnogodd 2 ymatebwr yn benodol y nodau i 'gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol' ac i 'godi ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o sectorau treftadaeth, diwylliant, twristiaeth a busnes Castell-nedd Port Talbot.' Mae sylwadau'n cydnabod bod y rhain yn gyraeddadwy.

**Nodau penodol yr anghytunwyd â hwy a sylwadau cysylltiedig:**

- O'r 4 ymatebwr i hyn, ystyria 2 fod hyrwyddo'r iaith yn wastraff o arian cyhoeddus yn enwedig gan fod cyllidebau'n cael eu lleihau a gwasanaethau'n cael eu torri.
- Er y deallwyd y rhesymeg y tu ôl i'r nod i 'arafu'r gostyngiad yng nghanran nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol', ystyriwyd bod hyn yn negyddol ac yn derbyn y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Anghytunodd un ymatebwr â'r nod i 'yrru a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg' ar y sail y byddai'n creu rhaniad rhwng siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd hyn mor negyddol ag yr ystyriwyd i ddechrau gyda'r sylw ychwanegol 'y nod yw dwyieithrwydd' a'r angen i 'gynyddu swm y Gymraeg a addysgir mewn addysg cyn oed ysgol ac addysg gynradd'.

## 5.2 Sylwadau ar y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r strategaeth:

Roedd 20 (45.5%) yn cytuno 'i raddau' y byddai'r camau gweithredu yn cyflawni'r nodau, roedd 19 (43.1%) yn cytuno a 6 (13.3%) o'r ymatebwyr yn anghytuno.

Rhesymau a roddwyd:

- Nododd rhai fod y camau gweithredu'n 'gynhwysfawr ac yn drwyadl' ac y byddant yn 'sicr yn cynorthwyo i'w gwneud yn iaith fyw a'u bod yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo'r iaith', ond teimlai eraill nad oedd y camau'n 'ddigon uchelgeisiol'.
- Cyfeiriodd rhai sylwadau at anawsterau dysgu Cymraeg oherwydd 'diffyg safoni ynddi sy'n effeithio ar ddysgu, yn enwedig i'r rheiny ag anableddau dysgu'.
- Tynnwyd sylw at y ffaith y 'disgwylir llawer gan 3ydd partïon' sydd y tu hwnt i ddylanwad y cyngor.
- Gwnaed ambell sylw ynghylch cefnogi gweithgareddau hyrwyddo mewn rhannau o'r fwrdeistref sirol lle siaredir Saesneg yn bennaf ond nid ar draul ardaloedd Cymraeg traddodiadol, megis Pontardawe a Gwauncaegurwen.
- Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at y ffaith bod angen newid canfyddiadau, yn enwedig lle nad oes unrhyw gymhelliant i ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai newid i'w ddisgwyl ym mhob maes, gan gynnwys busnesau.
- Nododd un ymatebwr y byddai mwy o wasanaethau cyn oed ysgol Cymraeg yn gofyn am fyfyrwyr 'y blynyddoedd cynnar' wedi'u hyfforddi trwy'r Gymraeg a fyddai, yn ei dro, yn gofyn am diwtoriaid sy'n siaradwyr Cymraeg eu hunain.

## 5.3 Sylwadau ar effeithiau'r strategaeth ar:

- **Gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg**
- **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Er yr ystyria dau draean o'r ymatebwyr y byddai'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, 44.4% yn unig o ymatebwyr ystyriodd y byddai effaith gadarnhaol ar beidio â thrin y Gymraeg 'yn llai ffafriol' na'r Saesneg.

2 ymateb negyddol yn unig a gafwyd i'r cwestiwn ac roedd hyn yn ymwneud â pheidio â thrin y Gymraeg 'yn llai ffafriol' na'r Saesneg.

Roedd sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- 'effaith gadarnhaol yn unig y dylai cefnogi'r Gymraeg ei chael, ond teimlaf fod y geiriau 'yn llai ffafriol' yn bychanu'r Gymraeg'
- Derbyniwyd llawer o sylwadau'n cefnogi effeithiau cadarnhaol y strategaeth, 'Wrth gwrs, rydym yng Nghymru, dylid trin y Gymraeg yn fwy ffafriol. Gwnewch hynny', ond fe'u cymedrolwyd gan gydnabyddiaeth y byddai hyn yn gofyn am fwy.
- Er y cydnabu rhai o'r ymatebwyr y byddai'r strategaeth yn helpu 'mewn termau cymdeithasol a strwythurol', y byddai'n cael 'dylanwad cadarnhaol' a bod 'manteision i ddefnyddio'r Gymraeg', amlygwyd hefyd y bydd 'pobl bob amser yn siarad Saesneg', mai '[y Saesneg] fyddai prif iaith busnes bob amser' ac y bydd 'gwahaniaeth sylweddol o hyd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg'.
- 'Diffyg parch tuag at yr iaith a hanes'.

## 5.4 Sylwadau pellach a roddwyd ar y strategaeth

- 'Nid yw'r ddeddfwriaeth yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Os unrhyw beth, mae'n creu rhywbeth sydd i'r gwrthwyneb i'r *Welsh Not*...'
- 'Bydd y strategaeth yn helpu os bydd y rheiny sy'n gallu siarad Cymraeg yn ei defnyddio... dim beirniadaeth... cyn belled ag y gall y cyngor hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen symleiddio'r Gymraeg.'
- 'Mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn canolfannau hamdden yn syniad gwych.'
- 'Mae Cymraeg achlysurol yn lle da i ddechrau ac yn gosod meddylfryd cadarnhaol ar gyfer yr iaith'.
- Nodwyd mwy o gyfleoedd i hyrwyddo/annog y Gymraeg; 'cynnwys gwersi am ddim i ddysgwyr', amodau ar gyfer y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn ffurflenni cais amrywiol etc, 'cyflwyno ffrydiau Cymraeg i ysgolion cynradd Saesneg', 'cynnal Eisteddfod yr Urdd/Eisteddfod Genedlaethol', 'cynnal mwy o ddosbarthiadau sgyrsiol, anffurfiol', 'mwy o gyfle i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol', etc.
- 'Defnyddio arian mewn meysydd eraill lle gall gael effaith fwy buddiol ar ein bywydau'.

- 'Defnyddio geiriau Cymraeg cywir ac nid un gair Cymraeg a'r gweddill yn Saesneg, yn enwedig gan fod geiriau Cymraeg ar gael'.
- 'Mae bod yn gynhwysol yn hanfodol i ddyfodol yr iaith'.
- Tynnodd un ymatebwr sylw at y ffaith nad yw Gwyn Cymreig/Gwyn Ewropeaidd wedi'u cynnwys fel categorïau ethnigrwydd.
- Sgiliau iaith, i ddysgu/wella'r Gymraeg, yn ystyriaeth bwysig wrth recriwtio staff.

## 6. Sylwadau a dderbyniwyd drwy e-bost - Cyngor Cymuned Cilybebyll

Er bod y Cyngor Cymuned yn croesawu'r strategaeth fel cam i'r cyfeiriad cywir, nododd hefyd y byddai mwy o fanylder o ran amserlenni wedi bod yn ddefnyddiol.

Nododd hefyd y cyfeiriadau cyfyngedig at bolisi cynllunio a'r pwyslais a roddir ar addysg er ei fod yn ystyried nad yw 'effaith Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor wedi cael ei hystyried yn y strategaeth, yn enwedig goblygiadau cynlluniau sy'n dod i'r amlwg am "ysgol pob oed" ym Mhontardawe gyda'i heffaith debygol ar ysgolion cynradd ac uwchradd lleol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at hyrwyddo'r Gymraeg'.

## 7. Ymatebion o'r ymgynghoriad 'anffurfiol'

Roedd yr ymgynghoriad 'anffurfiol' yn canolbwyntio ar p'un a oedd unigolyn yn cytuno/anghytuno neu'n ansicr ynghylch pob un o nodau'r strategaeth. Cymerodd cyfanswm o 81 o unigolion ran; 21 ym Mhort Talbot, 34 yn g Nghastell-nedd a 26 ym Mhontardawe. Ni ddewisodd pob ymatebwr i ateb pob cwestiwn ac mae'r canlynol wedi ystyried hyn:

**Nod –** Cyflwyno camau i arafu’r gostyngiad yng nghanran nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol

Cytunodd 94.8% o bobl
Anghytunodd 3.8% o bobl
Roedd 1.2% o bobl yn ansicr

**Nod –** Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol
Cytunodd 89.4% o bobl
Anghytunodd 7.8% o bobl
Roedd 2.6% o bobl yn ansicr

**Nod –** Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd
Cytunodd 81% o bobl
Anghytunodd 10.1% o bobl
Roedd 8.8% o bobl yn ansicr

**Nod –** Codi ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o sectorau treftadaeth, diwylliant, twristiaeth a busnes Castell-nedd Port Talbot
Cytunodd 90.7% o bobl
Anghytunodd 2.6% o bobl
Roedd 6.5% o bobl yn ansicr

**Nod –** Gyrru a chefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a chreu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg newydd
Cytunodd 93.4% o bobl
Anghytunodd 3.9% o bobl
Roedd 2.6% o bobl yn ansicr

## 8. Sylwadau a dderbyniwyd:

- Derbyniwyd llawer o sylwadau ynghylch y Gymraeg ac addysg; mae angen mwy o ysgolion Cymraeg/mae angen dysgu mwy o Gymraeg mewn ysgolion Saesneg/mae angen addysgu'r Gymraeg o oed cynharach.
- 'Mae'r Gymraeg yn dod yn fwyfwy amlwg. Byddai'n siomedig petai CNPT yn cael ei gadael ar ôl'.
- Ystyriwyd bod geiriad y nod cyntaf yn 'drwsgl'.
- Rhai sylwadau yn cydnabod yr anhawster i gyflawni'r nod o 'gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol' gan fod siaradwyr Cymraeg yn gadael yr ardal.
- Nodwyd y byddai cael cyrsiau Cymraeg mwy fforddiadwy hefyd yn ffordd o annog cefnogaeth i'r Gymraeg.

## 9. Ymateb i'r sylwadau

Roedd y mwyafrif o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cyfeirio at faterion yr ymdriniwyd â hwy yn y strategaeth ac, o ganlyniad, rhoddwyd sylw priodol i'r sylwadau hyn.

Fodd bynnag, roedd angen ystyried nifer bach o sylwadau ymhellach. O ganlyniad, ystyriwyd y byddai'n briodol diwygio'r strategaeth a datblygu camau gweithredu ychwanegol i adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd. Manylir ar y newidiadau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Wedi ystyried rhai sylwadau ynghylch addysg Gymraeg ymhellach, ystyriwyd bod y materion hyn wedi cael eu trafod yn ddigonol yn y Strategaeth neu yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Roedd materion a godwyd mewn perthynas ag addysgu'r iaith yn ystyriaeth genedlaethol ac maent yn rhan o Strategaeth Cymraeg 2050. Mae awgrym i gynnwys ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion Saesneg yn un o nifer o opsiynau sy'n cael eu harchwilio i ateb y galw am addysg Gymraeg.

Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch datblygu ysgol newydd arfaethedig ym Mhontardawe o ran yr 'effaith andwyol' y byddai'n ei chael ar y Gymraeg. Nododd ymateb y gwasanaeth fod y prosiect Ysgol yr 21ain Ganrif hwn ar gam cynnar iawn o'i ddatblygiad ac y bydd yn destun sawl asesiad effaith amrywiol, gan gynnwys rhai ar gyfer y Gymraeg a'r gymuned, i helpu i asesu effaith andwyol bosib ar addysg Gymraeg yn yr ardal. Cyfeirir at hyn yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Soniwyd hefyd am yr anawsterau y mae disgyblion ag anawsterau dysgu yn eu hwynebu mewn lleoliadau addysg Gymraeg ac er y cynigir amrywiaeth o gefnogaeth yn Gymraeg ar gyfer anghenion ychwanegol, mae rhagor o waith i wella darpariaeth bresennol yn cael ei ystyried.

Bydd awgrymiadau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg trwy amodau trwyddedu ar gyfer digwyddiadau etc yn cael eu harchwilio'n fanylach dros y misoedd nesaf.

## 10. Newidiadau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad

Cafodd y sylwadau amrywiol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori eu hystyried yn llawn gan y grŵp tasg a gorffen. Nid oedd y rhan fwyaf o sylwadau'n gofyn am gamau gweithredu pellach, naill ai am eu bod yn cefnogi'r strategaeth neu am fod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg neu'r strategaeth ei hun eisoes yn ymdrin â hwy.

Roedd rhai sylwadau'n ymwneud ag agweddau ar waith y cyngor, e.e. arwyddion, yr ymdrinnir â hwy'n unol â Safonau'r Gymraeg fel y maent wedi'u gosod ar y cyngor.

Cyfeiriwyd rhai materion at feysydd gwasanaeth, Addysg a Thrwyddedu yn benodol, i'w hystyried. Bu'r grŵp tasg a gorffen yn gwerthuso'r ymatebion hyn a gwnaed diwygiadau i'r strategaeth lle y bo'n briodol.

Gwnaed y newidiadau canlynol:

| **SYLW** | **NEWID** |
|---|---|
| Ystyriwyd bod hyrwyddo'r iaith yn wastraff o arian cyhoeddus, yn enwedig gan fod cyllidebau'n cael eu lleihau a gwasanaethau'n cael eu torri | Testun ychwanegol i gryfhau'r sefyllfa o ran yr adnoddau a nodwyd i gyflawni nodau'r strategaeth |
| Mae'r camau gweithredu union yr un peth â'r rhai a nodwyd (ac a fethodd) o'r blaen; nid yw'r Gymraeg yn gyffredin o hyd | Testun ychwanegol i bwysleisio bod y strategaeth yn seiliedig ar waith blaenorol ond gyda ffocws ac ymrwymiad newydd i gynyddu amlygrwydd yr iaith, deddfwriaeth ddiweddar a gweledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 |
| Dibynnu ar drydydd partïon i gyflwyno camau gweithredu sydd y tu hwnt i 'reolaeth' y cyngor | Testun ychwanegol i gryfhau natur y berthynas rhwng Menter Iaith a'r Fforwm Iaith i helpu i gyflawni'r nodau |
| Mae'r nod cyntaf yn 'drwsgl' ac fe'i hystyrir i fod yn nod negyddol | Testun ychwanegol i egluro'r nod |
| Ystyrir bod y derminoleg 'peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg' yn bychanu'r Gymraeg | Esboniad o darddiad y derminoleg (Safonau 88-97) i'w gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori |

Gwnaed rhai awgrymiadau yn ystod yr ymgynghoriad a ystyriwyd yn briodol i'w cynnwys fel camau gweithredu, na fyddai'n gofyn am gyllid ychwanegol i'w cyflawni, i helpu i gyflawni nodau'r strategaeth.

| **AWGRYM** | **CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL** |
|---|---|
| Dim llawer o hanes Cymreig am enwau lleoedd etc ar y wefan | Datblygu adnodd deinamig parthed hanes enwau lleoedd etc ar y wefan |
| Gwneud cyrsiau hyfforddiant Cymraeg yn fwy hygyrch | Datblygu gwe-dudalen benodol i gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd i ddysgu/ddefnyddio'r Gymraeg, dolenni i sefydliadau a gwefannau eraill |

| | |
|---|---|
| Annog busnesau i hyrwyddo'r Gymraeg | Ystyried ffyrdd o annog busnesau i hyrwyddo'r Gymraeg |
| Aelodau Etholedig i ddefnyddio cyfarchion Cymraeg mewn digwyddiadau | Annog Aelodau Etholedig i ddefnyddio geiriau a chyfarchion Cymraeg mewn digwyddiadau |

## 11. Gwybodaeth Cydraddoldeb

Cafodd cwestiynau monitro cydraddoldeb safonol y cyngor hefyd eu cynnwys yn yr arolwg. Ceir dadansoddiad o'r wybodaeth cydraddoldeb mewn perthynas ag ymatebwyr yr ymgynghoriad o ddwy fersiwn yr holiadur yn y tabl isod.

Sylwer bod y cwestiynau hyn yn wirfoddol ac o ganlyniad, ni chwblhawyd yr adran hon gan bob ymatebwr. Felly, nid yw proffil demograffig cyffredinol y sawl ag ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchiad go iawn o'r fwrdeistref sirol fel y cyfryw.

| Gwybodaeth Cydraddoldeb yr Ymgynghoriad |
|---|

| Ystod oedran | Nifer |
|---|---|
| Dan 16 oed | 0 |
| 17-24 | 0 |
| 25-29 | 4 |
| 30-39 | 5 |
| 40-49 | 12 |
| 50-59 | 11 |
| 60-74 | 5 |
| 75-85 | 0 |
| 86+ | 4 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 1 |

| Y Gymraeg | Nifer |
|---|---|
| Ychydig neu ddim gwybodaeth | 8 |
| Dysgwr | 12 |

| | |
|---|---|
| Siarad ac yn ysgrifennu'n rhugl | 9 |
| Siaradwr gweddol rugl | 5 |
| Siarad ac ysgrifennu'n weddol rugl | 6 |
| Siaradwr rhugl | 2 |

| Oes gennych anabledd yn eich barn chi? | Nifer |
|---|---|
| Oes | 9 |
| Nac oes | 30 |
| Dewis peidio â dweud | 3 |

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Gwryw | 21 |
| Benyw | 17 |
| Trawsrywiol | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 2 |

| Crefydd / Cred | Nifer |
|---|---|
| Cristnogaeth | 23 |
| Siciaeth | 0 |
| Bwdhaeth | 0 |
| Hindŵaeth | 0 |
| Iddewiaeth | 0 |
| Islam | 0 |
| Dim crefydd | 15 |
| Unrhyw grefydd arall | 7 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 4 |

| Tueddfryd rhywiol | Nifer |
|---|---|
| Gwahanrywiol | 32 |

| | |
|---|---|
| Lesbiaidd | 0 |
| Hoyw | 0 |
| Deurywiol | 1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 8 |
| Cenedligrwydd | Nifer |
| Cymreig | 34 |
| Albanaidd | 0 |
| Saesnig | 0 |
| Prydeinig | 5 |
| Gwyddelig | 1 |
| Arall | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 2 |

| Tarddiad ethnig | Nifer |
|---|---|
| Gwyn (Prydeinig) | 32 |
| Gwyn (Gwyddelig) | 0 |
| Gwyn (Arall) | 0 |
| | |
| Cymysg (Gwyn a Du Caribïaidd) | 0 |
| Cymysg (Gwyn a Du Affricanaidd) | 0 |
| Cymysg (Gwyn ac Asiaidd) | 0 |
| Cymysg (arall) | 0 |
| | |
| Asiaidd (Indiaidd) | 0 |
| Asiaidd (Bangladeshaidd) | 0 |
| Asiaidd (Pacistanaidd) | 0 |
| Asiaidd (arall) | 0 |
| | |
| Du (Affricanaidd) | 0 |
| Du (Caribïaidd) | 0 |

| | |
|---|---|
| Du (Arall) | 0 |
| Tsieineaidd | 0 |
| Grŵp ethnig arall | 7 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 3 |

## Cynllun Ymgynghori a Chynnwys

Mae'r cynllun isod yn rhestru amrywiaeth o weithgareddau cynnwys a gynhaliwyd gennym yn ystod y cyfnod ymgynghori rhwng 25 Mai a 22 Mehefin 2018. Mae'r cynllun yn dangos sut y cysylltwyd â thrawstoriad o'r gymuned, gan gynnwys: y cyhoedd, y rheiny â nodweddion gwarchodedig, teuluoedd, plant a phobl ifanc a phartneriaid.

| Beth | Ble |
|---|---|
| Pecynnau ymgynghori, yn cynnwys y canlynol:<br>• Copi o Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu drafft (Cymraeg a Saesneg) at ddibenion cyfeirio<br>• Cyflenwad o holiaduron i'w cwblhau'n unigol (Cymraeg a Saesneg) a oedd yn efelychu'r holiaduron ar-lein<br>• Blwch post ar gyfer yr holiaduron a gwblhawyd | Roedd pecynnau ymgynghori ar gael yn holl adeiladu'r cyngor ac mewn llyfrgelloedd cymunedol ac yn y Siopau dan yr Unto yng Nghastell-nedd a Phort Talbot<br><br>Cwblhaodd 13 o gyfranogwyr yr holiadur a'i ddychwelyd drwy'r 20 blwch post a roddwyd mewn adeiladau cyhoeddus |
| Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (e.e. Facebook/Twitter) | Cyhoeddwyd negeseuon cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar Facebook a Twitter |
| Gwefan y cyngor | Cyhoeddwyd holiadur ar-lein a deunyddiau ategol drwy ddolen o we-dudalen y cyngor ar Safonau'r Gymraeg yn www.npt.gov.uk/well-being |
| Datganiad i'r wasg | Drwy wefan y cyngor a chysylltiadau cyfryngau |
| Cylchlythyr corfforaethol i staff y cyngor | Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy gylchlythyr corfforaethol i staff y cyngor, 'In the Loop', i annog staff i leisio'u barn |
| E-bost gyda dolen we | Anfonwyd e-bost yn hyrwyddo'r ymgynghoriad i restr gynhwysfawr o randdeiliaid mewnol ac allanol; grwpiau cydraddoldeb lleol, undebau llafur, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ysgolion, etc. |
| Digwyddiadau ymwybyddiaeth/ymgynghori | Ymgynghoriad 'anffurfiol' ar nodau'r strategaeth ym Mhort Talbot, Castell-nedd a Phontardawe ar 12/13/14 Mehefin |